**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1233
Ein cyf/Our ref EM/14343/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

15 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr 25 Tachwedd mewn perthynas â'r ddeiseb oddi wrth Lauren M yn galw am ddiwedd ar yr holl fesurau amddiffyn rhag y coronafeirws.

Rwyf yn cydnabod yn llawn bod rhai o'r mesurau sydd wedi'u cyflwyno mewn ymateb i'r coronafeirws wedi bod yn heriol iawn i bobl a busnesau ledled Cymru. Mae'r rhain wedi bod yn angenrheidiol, er hynny, i atal lledaeniad y feirws ofnadwy hwn, i achub bywydau ac i ddiogelu'r GIG.

Nid yw'r coronafeirws wedi diflannu. Mae brechu wedi helpu i wanhau'r cysylltiad rhwng haint, salwch difrifol a gorfod mynd i'r ysbyty ond nid yw wedi torri'r cysylltiad hwnnw yn llwyr. Mae hyn yn erbyn cefndir o bwysau brys ac argyfwng cynyddol mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, sydd i'w cymharu â'r rhai a welir fel rheol yn ystod cyfnodau anodd y gaeaf.

Yn yr ychydig wythnosau diwethaf mae'r amrywiolyn Omicron newydd wedi dod i'r amlwg. Mae hwn yn ddatblygiad difrifol arall yn y pandemig ac yn un yr ydym yn ei gymryd o ddifrif. Rydym yn gobeithio na fydd yr amrywiolyn newydd hwn yn arwain at fesurau pellach. Cedwir y rheolau presennol o dan ystyriaeth wrth inni ddysgu mwy am Omicron a pha mor bell y mae wedi lledaenu yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Rheoli'r Coronafeirws wedi'i ddiweddaru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref, yn nodi ein hymagwedd at y pandemig dros yr hydref a'r gaeaf. Mae'n nodi ein ffocws parhaus ar frechu fel ein hamddiffyniad mwyaf effeithiol. Rydym wrthi'n ehangu'r rhaglen frechu yng Nghymru, yn unol â'r cyngor diweddaraf gan JCVI ac mewn ymateb i amrywiolyn Omicron, gan drefnu bod pigiadau atgyfnerthu ar gael i bob oedolyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Cymru'n dal i fod ar lefel rhybudd sero. Mae'r mesurau hyn ar eu lefel isaf ers i'r pandemig ddechrau.   Nid oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol ar nifer y bobl a all gwrdd, gan gynnwys mewn cartrefi preifat, mannau cyhoeddus neu mewn digwyddiadau. Yn ogystal â hynny, gall pob busnes a sefydliad agor.

Er hynny, nid ydym eto wedi cyrraedd sefyllfa lle gallwn ddileu pob amddiffyniad ac – yn unol â'r cyngor gwyddonol ac iechyd cyhoeddus diweddaraf – rydym yn cadw rhai rheolau allweddol ar waith yn y gyfraith. Yn hyn o beth mae angen cydgyfrifoldeb yn hytrach na dewis personol.

- Rhaid i fusnesau, cyflogwyr a sefydliadau eraill barhau i gynnal asesiad risg coronafeirws a chymryd mesurau rhesymol i leihau'r posibilrwydd o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws a'i ledaenu.

- Rhaid i bawb barhau i hunanynysu am 10 diwrnod os byddant yn cael prawf COVID-19 positif.  Os ydych wedi bod mewn cysylltiad agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif ac os ydych yn 18 oed neu drosodd ac nad ydych wedi cael eich brechu'n llawn, rhaid i chi hunanynysu am 10 niwrnod hefyd. Rhaid i holl gysylltiadau achos Omicron sydd wedi'i gadarnhau neu a amheuir hunanynysu am 10 niwrnod, p'un a ydynt wedi'u brechu neu beidio.

- Rhaid i oedolion a phlant dros 11 oed barhau i wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do, ac eithrio lleoliadau lletygarwch megis bwytai, tafarndai, caffis neu glybiau nos.

- Mae Pàs COVID y GIG yn orfodol i brofi eich bod wedi''ch brechu neu'ch bod wedi profi'n negyddol er mwyn cael mynediad at ddigwyddiadau mawr, clybiau nos, sinemâu, theatrau a neuaddau cyngerdd.

Rhaid i Reoliadau'r Coronafeirws gael eu hadolygu bob 21 diwrnod i sicrhau eu bod yn dal yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cydbwyso'r niwed uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws ag effaith gymdeithasol, economaidd a llesiant mesurau. Mae'r rheoliadau wedi'u hamserlennu i ddod i ben ar 25 Chwefror.

Rwyf yn glir bod y mesurau sydd ar waith yn dal yn angenrheidiol os ydym yn mynd i ddiogelu Cymru gyda'n gilydd.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol